

Dirprwy Reolwr Gweithdy – Theatr Clwyd

Swydd barhaol

Rhan Amser

Oriau - 37 awr yr wythnos

Graddfa TC03: SCP o 23 - 27

Cyflog o £21,693 - £24,657

Lleoliad: Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint, CH7 1YA

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Gweithredol (Cyfarwyddwr Artistig – Tamara Harvey a Chyfarwyddwr Gweithredol – Liam Evans-Ford) yn llywio'r symudiadau diwylliannol a gweithredol pwysicaf yn ei 42 mlynedd o fodoloaeth, cyfnod a fydd yn ailddiffinio a sicrhau dyfodol y ganolfan gelfyddydau unigryw a gwerthfawr hon – y brif theatr gynhyrchu yng Nghymru.

Pwrpas Adran Gynhyrchu'r theatr yw creu a rhedeg pob agwedd o gynyrchiadau a phrosiectau cysylltiedig Theatr Clwyd i'r safonau uchaf, mewn partneriaeth â chyfarwyddwyr, cynllunwyr ac arweinwyr prosiectau. Mae'r adran yn gyfrifol am sicrhau fod timau creadigol yn cyflawni eu gweledigaeth artistig o fewn amserlenni a chyllidebau penodol.

Bydd Dirprwy Reolwr y Gweithdy yn gweithio gyda Rheolwr y Gweithdy i gynllunio, adeiladu a gosod golygfeydd ar gyfer cynyrchiadau Theatr Clwyd fel rhan o'r Adran Gynhyrchu, er mwyn darparu gwasanaeth o'r safon uchaf posibl.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn fedrus ac yn brofiadol mewn ystod eang o ddulliau a deunyddiau adeiladu (gwaith coed, weldio a saernïo yn bennaf) a sgiliau rhyngpersonol a goruchwylio da, ynghyd â dealltwriaeth drylwyr o arferion gwaith diogel.

Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau: Dydd Sul 18 Awst 2019

Dyddiad(au) cyfweiliadau: w/d Dydd Llun 26 Awst 2019

Anfonwch e-bost neu ffoniwch Steve Eccleson (Rheolwr Gweithdy) neu Jim Davis (Cyfarwyddwr Cynhyrchu) am drafodaeth anffurfiol.

steve.eccleson@theatrclwyd.com

01352 755207

jim.davis@theatrclwyd.com

01352 701578

Mae Theatr Clwyd yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle, ac mae wedi ymrwmo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi gweithwyr newydd a rhai sydd eisoes yn gweithio gyda ni sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau Cymraeg.